Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Llun, 23 Hydref 2023

Presennol: Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Marc Davies (Is-gadeirydd), Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Rhodri Evans, Maldwyn Lewis, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan a Carl Worrall.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Ifan Davies, Endaf Edwards, Elizabeth Evans, Keith Evans, Raymond Evans, Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

Aelodau Cabinet yn bresennol: Y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson ac Alun Williams.

Swyddogion yn bresennol: Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd; Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd; Katy Spain, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Trafnidiaeth; Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyllid a Chaffael; Arwyn Davies, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Twf a Menter; Angela Sawyer, Uwch Dechnolegydd Bwyd; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 12.51pm)

1 Ymddiheuriadau

i. Ymddiheurodd y Cynghorwyr John Roberts a Chris James am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Carl Worrall y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 Cynigion a Chyfleoedd ar gyfer Parcio

Eglurodd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon) mai pwrpas yr adroddiad oedd darparu gwybodaeth ynglŷn â'r ddau argymhelliad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 5 Medi 2023 fel y nodwyd isod:

Argymhelliad 1: Bod y Cabinet yn ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth.

Argymhelliad 2: Bod y Cabinet yn ystyried cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Rhoddodd Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol gyflwyniad i'r Pwyllgor ynglŷn â pharcio ar bromenâd Aberystwyth. Amlinellwyd y canlynol:

- Proses
- Ystyriaethau
- Adborth Rhanddeiliaid

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Cododd yr Aelodau Etholedig yn Aberystwyth bryderon am yr effaith ariannol y gallai codi tâl ar hyd y Promenâd ei chael ar fusnesau gan gynnwys llety Gwely a Brecwast ac ar breswylwyr nad oedd ganddynt le i barcio oddi ar y stryd megis yr henoed a'r anabl. O ran deiliaid Bathodyn Glas sydd mewn cerbyd sydd wedi'i eithrio o dalu treth o achos anabledd, ac sy'n dangos eu bathodyn glas, rhoddwyd cadarnhad eu bod yn cael parcio am ddim ym meysydd parcio Talu ac Arddangos Ceredigion. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i ddeiliaid eraill y Bathodyn Glas dalu. Byddai'r trefniadau ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas lle cyflwynwyd codi tâl ar gyfer parcio ar y stryd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a pholisi.
- Pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i godi tâl am barcio ar hyd y Promenâd, teimlai'r Aelodau y byddai parcio ar gyfer preswylwyr yn allweddol. Awgrymwyd y dylid ymchwilio i'r ffioedd a godir ar breswylwyr ar draws Cymru i sicrhau y byddai'r hyn a godir am barcio yn deg. Dywedwyd na fyddai trwydded ar gyfer preswylwyr yn rhoi sicrwydd y byddai lle parcio ar gael iddynt gan fod parcio ar y stryd yn cael ei ddarparu ar y briffordd gyhoeddus.
- Dywedwyd bod nifer o'r rhai a oedd yn parcio ar hyd y Promenâd yn ystod y dydd yn bobl a oedd wedi dod i'r dref i weithio. Ar hyn o bryd, pan nad oedd llefydd ar gael, roedd yn rhaid i breswylwyr a oedd yn byw ar y promenâd fynd i chwilio am lefydd parcio yn y strydoedd cyfagos. Codwyd pryderon y byddai codi tâl am barcio yn lleihau'r nifer o lefydd rhad ac am ddim gerllaw gan y byddai pobl yn mynd ati i chwilio am y llefydd hyn. Hefyd, o ystyried yr agenda newid hinsawdd, gallai codi tâl ar hyd y Promenâd annog mwy o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i ddod i'r dref.
- Awgrymodd yr Aelodau fod angen adolygu'r sefyllfa o ran parcio yn Aberystwyth yn ei chyfanrwydd gan fod datblygiadau newydd wedi golygu bod llai o lefydd parcio ar gael ac nad oedd y ddarpariaeth yn ddigonol.
- Pwysleisiodd yr Aelodau y byddai'n hanfodol bod unrhyw gostau ychwanegol i'r gwasanaeth (e.e. gosod peiriannau talu / arwyddion) yn cael eu hadennill drwy'r incwm a fyddai'n cael ei greu. Dywedwyd bod arwyddion a oedd yn caniatáu i bobl dalu ar-lein yn cael eu defnyddio'n eang mewn lleoliadau eraill ac y byddai hynny'n well yn ariannol. Os mai dim ond rhan o'r Promenâd fyddai'n cael ei defnyddio i godi tâl am barcio, byddai llai o gostau ond hefyd byddai llai o incwm.

- Ar hyn o bryd, am fod prinder llefydd, roedd anawsterau o ran parcio ar y Promenâd ond pe byddai tâl yn cael ei godi am barcio, roedd yr Aelodau o'r farn y byddai mwy o fynd a dod o ran cerbydau.
- Codwyd pryderon am nifer y beicwyr modur ar lan y môr a'r perygl yr oeddent yn ei beri i'r cyhoedd; nodwyd mai mater i Heddlu Dyfed-Powys oedd hwn.
- O ystyried yr heriau i'r gyllideb, roedd rhan fwyaf yr Aelodau yn cytuno bod angen i'r Awdurdod Lleol ystyried sut y gallai greu incwm o barcio. Roedd nifer o'r Aelodau o'r farn bod codi tâl am barcio ar y Promenâd yn Aberystwyth yn cynnig cyfle heb ei ail.
- Nodwyd nad oedd y gwasanaeth teithio a pharcio wedi bodoli yn Aberystwyth am rai blynyddoedd. Roedd nifer o feysydd parcio ar gael gerllaw ynghyd â gwasanaethau bysiau a threnau rheolaidd.
- Dylid ystyried yr agenda Teithio Llesol, cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, cynllun amddiffyn yr arfordir a strategaethau eraill, i sicrhau bod unrhyw newidiadau i barcio ar y Promenâd yn cael eu cyflwyno mewn modd rhesymegol.

Rhoddodd Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Amgylcheddol drosolwg i'r Pwyllgor o effaith ariannol y cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Nododd yr Aelodau fod yr argymhelliad yn cyfeirio at ystyried un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi. Esboniwyd bod trosolwg o'r meysydd parcio wedi'i ddarparu er mwyn rhoi'r cyd-destun ac fel y gallai'r Aelodau gymharu data. Codwyd pryder pe byddai un maes parcio am ddim am 2 awr y byddai hyn yn cael effaith ar y meysydd parcio eraill yn yr un dref, ac yn sgil hynny, ar y targed o ran incwm a'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.
- Codwyd pryderon na fyddai darparu parcio am ddim cyn 10am o fudd i'r henoed ac o ystyried yr argyfwng costau byw, codwyd pryderon am effaith unrhyw gynnydd yn y ffioedd a godir am barcio ar aelwydydd.
- Soniwyd am bwysigrwydd sicrhau tegwch ar draws y sir. Er bod rhai gwasanaethau wedi dod i ben mewn ardaloedd fel Llandysul, roedd disgwyl i holl drigolion Ceredigion sybsideiddio'r gwasanaethau a oedd yn dal i fodoli ar draws y sir.
- Nodwyd bod angen dull gweithredu mwy holistaidd yn gyffredinol, ac y dylai'r Cabinet ystyried datblygiad economaidd y trefi a chlywed barn y busnesau cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Hefyd, dylid ystyried y boblogaeth wledig a oedd yn defnyddio gwasanaethau lleol ond nad oedd ganddynt fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus.

Ystyriodd yr Aelodau senarios gwahanol ar gyfer y Promenâd gan gynnwys codi tâl drwy'r flwyddyn neu'n dymhorol. Hefyd, er mwyn sicrhau tegwch, ystyriodd yr Aelodau a ddylid cynnig 2 awr o barcio am ddim cyn 10am ym mhob un o feysydd parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion. Yn

dilyn hynny, dywedodd y Swyddog 151 (Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael) wrth y Pwyllgor nad oedd ganddynt y data ariannol cyflawn ar gyfer ystyried eu cynnig yn iawn am mai dim ond amcangyfrif o'r effaith ariannol oedd yr adroddiad yn ei ddangos o ran y meysydd parcio yn Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi. Nodwyd y byddai'r ffioedd am barcio ym meysydd parcio Tregaron a Llandysul yn cael eu hystyried yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi cynnwys yr adroddiad ac argymell y dylai'r Cabinet gynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth drwy'r flwyddyn a chyflwyno parcio am ddim cyn 10am ym mhob un o feysydd parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion. Byddai angen i'r Cabinet ystyried goblygiadau ariannol ychwanegu Aberystwyth at y cynnig hwn gan na fyddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld unrhyw newidiadau yn cael effaith ariannol negyddol ar yr Awdurdod.

4 Canolfan Bwyd Cymru

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad ar Ganolfan Bwyd Cymru, a adeiladwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn Horeb, Llandysul, ac fe'i hagorwyd ym 1996, i ddarparu cymorth technegol i'r diwydiant bwyd yng Ngheredigion yn ogystal â Chanolbarth a De-orllewin Cymru. Mae ei leoliad, yn hygyrch i gymunedau gwledig yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn amlygu un o'i amcanion allweddol, sef cefnogi busnesau amaeth sydd am arallgyfeirio i ychwanegu gwerth at gynnyrch craidd. Mae Canolfan Fwyd Cymru yn darparu gwasanaethau technegol i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a gweithgynhyrchwyr bwyd cenedlaethol.

Mae Canolfan Bwyd Cymru wedi ffurfio partneriaeth gyda dwy ganolfan dechnoleg fwyd arall yng Nghymru, sydd wedi'i lleoli yn Llangefni ac yng Nghaerdydd i ddarparu cefnogaeth ledled Cymru i'r diwydiant bwyd. Rhoddwyd trosolwg o'r ddarpariaeth bresennol gan gynnwys gwybodaeth helaeth am brosiect Helix a'r effaith ar yr economi. Ers 2016, roedd tîm Canolfan Bwyd Cymru wedi sicrhau canlyniadau da drwy brosiect HELIX yn unol â'r targedau a osodwyd. Dywedwyd nad oedd y tabl yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r holl gymorth a ddarparwyd am mai dim ond yr ymyriadau cyntaf a ddarperid i'r busnesau oedd modd eu cynnwys, er bod nifer yn dychwelyd sawl gwaith y flwyddyn.

O ran y dyfodol, prynodd Cyngor Sir Ceredigion 5 erw arall o dir ger yr ystâd bresennol yn Horeb yn 2019 i hwyluso cynlluniau twf. Ar hyn o bryd, mae dau brosiect yn cael eu datblygu a'u hasesu i'w cynnwys yn rhaglen y Cynllun Twf ar gyfer Canolbarth Cymru:

i. Sefydlu Canolfan Arloesi Cynhyrchu Bwyd, a fyddai'n dod â'r cyfleusterau peilot diweddaraf ar raddfa ddiwydiannol gyda'r nod o alluogi twf mwy o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd canolig eu maint yng nghanolbarth Cymru.
ii. Darparu cyfleusterau mwy o faint ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu bwyd, gan adeiladu ar yr unedau deor presennol yng Nghanolfan Bwyd Cymru.

Byddai'r datblygiadau hyn yn gwella ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y sector bwyd-amaeth yng Ngheredigion, sy'n allweddol i'w les economaidd, a byddant yn helpu i ddiogelu dyfodol y Ganolfan a'i berthnasedd a hyfywedd hirdymor. Hefyd, roedd yna ddatblygiadau cyffrous gan brosiectau eraill ym Margen Dwf Tyfu Canolbarth Cymru sef ArloesiAber a Thir Glas, a fyddai'n cyd-fynd â gwaith Canolfan Bwyd Cymru. Roedd cyllideb graidd y Ganolfan wedi cael eu hymestyn am 2 flynedd ond nid oedd dim sicrwydd ar ôl hyn.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Nodwyd bod y Ganolfan yn medru cefnogi busnesau o'r tu allan i Gymru yn fasnachol, ond dim ond busnesau o Gymru oedd yn medru elwa o brosiect Helix, a dyna oedd y ffocws ar hyn o bryd.
- Roedd rhan fwyaf y busnesau a oedd yn derbyn cymorth wedi'u lleoli yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru. Roedd Rachel's Diary a busnesau eraill a oedd wedi derbyn cefnogaeth yn gynnar ar eu siwrne wedi parhau i gael cefnogaeth wrth iddyn nhw dyfu. Wrth i'r busnesau ehangu, roedd mwy o alw am arbenigedd yn hytrach na chefnogaeth gyffredinol. Hefyd, oherwydd yr hinsawdd economaidd a oedd ohoni, roedd busnesau yn archwilio ffyrdd o leihau costau ac yn hytrach na phrofi unrhyw newidiadau yn eu prosesau ar eu safleoedd eu hunain, roedd yn well ganddynt wneud hynny yn y Ganolfan er mwyn osgoi unrhyw oedi i'w gwaith cynhyrchu.
- Roedd nifer yn y sector llaeth wedi arallgyfeirio ac roeddent yn gwerthu llaeth yn uniongyrchol. Roedd rhai o'r busnesau hyn wedi dechrau ar eu siwrne yn y Ganolfan. O ystyried yr heriau ariannol presennol, roedd yn bosib y byddai mwy o ffermwyr llaeth yn penderfynu ychwanegu gwerth at eu cynnyrch. Trwy dderbyn cefnogaeth gan y Ganolfan, byddent yn medru archwilio opsiynau heb fuddsoddi gormod yn y lle cyntaf, cyn penderfynu ai dyma oedd yr opsiwn gorau iddynt ai peidio.
- Cododd yr Aelodau bryderon mai dim ond 2 flynedd o gyllid oedd wedi'i ddarparu ar hyn o bryd. Esboniodd y Swyddogion fod y prosiect Helix wedi cael ei ddarparu drwy gyllid yr Undeb Ewropeaidd am 5 mlynedd yn y lle cyntaf a bod Llywodraeth Cymru wedi darparu un estyniad o ran cyllid craidd cyn yr estyniad diweddaraf o ddwy flynedd. Roedd trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r Swyddogion a'r Gweinidogion ac roedd y Ganolfan yn llwyddo i gyrraedd y targedau a osodwyd. Roedd cynlluniau yn cael eu datblygu rhag ofn na fyddai rhagor o gyllid yn cael ei ddarparu. Hefyd, byddai angen i natur gwaith y Ganolfan fod yn fwy masnachol. Gallai hyn effeithio ar fusnesau llai o faint gan y byddai mwy o ffocws ar gynyddu incwm.
- Dywedwyd bod Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn un o bartneriaid Arloesi Bwyd Cymru. Roedd dyhead i weithio gyda myfyrwyr a oedd yn awyddus i ddatblygu gyrfa yn y sector, a byddai hyn yn un o'r meysydd i'w gwella wrth symud ymlaen.
- Codwyd pryderon bod busnesau llwyddiannus wedi symud o Geredigion i fannau eraill yn y wlad, a hynny at ddibenion trethi ac oherwydd heriau recriwtio yn y gorffennol. Nodwyd mai uchelgais y Ganolfan oedd gweithio gyda busnesau o bob maint er mwyn cael gwell dealltwriaeth a

bu un busnes yn benodol yn ganolog i ddatblygiad Canolfan Bwyd Cymru a'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

- Ar hyn o bryd, nid oedd digon o le yn y Ganolfan i fusnesau ddatblygu ar y safle ac roedd hyn yn heriol ar adegau. Roedd y busnesau yn dueddol o symud i adeiladau fferm neu ystadau diwydiannol, ond fel arfer, roedd angen gwneud gwaith i sicrhau bod y cyfleusterau'n addas ar gyfer cynhyrchu bwyd. Un o elfennau allweddol y Fargen Dwf oedd y gallu i ehangu ar y ddarpariaeth a oedd ar gael er mwyn cwrdd â'r galw fel y gallai busnesau ddatblygu.
- Ystyriwyd bod gwaith dylunio a marchnata yn allweddol i fusnesau. Roedd Canolfan Bwyd Cymru yn gweithio'n agos gyda Busnes Cymru a'r arbenigwyr marchnata Cywain, sef prosiect a oedd yn cael ei redeg gan Menter and Busnes. Roedd sesiynau croesawu ar gyfer busnesau newydd yn cael eu trefnu ar y cyd rhwng y tri busnes yn rheolaidd. O ran hygrededd busnesau, roedd archwiliadau yn cael eu cynnal a gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y cynnyrch yn hyfyw a bod yna farchnad i'r cynnyrch cyn bod rhagor o waith yn cael ei wneud.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad ac i gynnal ymweliad safle i adolygu gwaith y safle a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

5 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

6 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Y diweddaraf am fflyd cerbydau Cyngor Sir Ceredigion (Rhagfyr 2023 os yn bosibl)

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____